Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Tachwedd 5ed 2024 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, November 5th 2024 at Penbryn Memorial Hall.*

Yn bresennol/*Present*

Cynghorwyr/*Councillors* Walwyn Jones, Caerwyn Owen, William Anwyl, Gareth Evans, Elen Mathias, Delfryn Owens, Jonathan Rees, Gwyn James, Teifi Davies.

1 <u>Ymddiheuriadau/Apologies</u>

Cynghorwyr/*Councillors* Barri Davies, Melva Phillips.

2 <u>Materion Personol/Personal Matters</u>

Mae Walwyn wedi dod yn dad-cu unwaith eto.
Walwyn has become a grandfather once more.

3 <u>Cofnodion Cyfarfod Misol Hydref/Minutes of October Meeting – 1/10/24</u>

Cynnig gan Gareth eu bod yn gywir a'i eilio gan Walwyn.
Proposed by Gareth to be correct and seconded by Walwyn.

4 <u>Materion yn Codi/Matters Arising</u>

i) Cyfrifon y Cyngor/*Council Accounts*

Cyhoeddodd y Clerc fod yr holl gyfrifon wedi'u cyflwyno i gwmni DMB Davies a bod Julian Harries wedi'u derbyn. Yn ogystal â hynny, cytunodd i'w trosglwyddo i Archwilio Cymru ar ein rhan. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Cadeirydd a'r Clerc, yr ydym wedi dod i ddealltwriaeth gyda DMBD ar drefniant cyflogau, ad-hawlio TAW ac archwilio cyfrifon y Cyngor yn y dyfodol.
The Clerk stated that all accounts had been submitted to DMB Davies and received by Julian Harries. He also agreed to transfer the accounts, on our behalf, to Audit Wales. Following a discussion with the Chair and Clerk, we have come to an understanding with DMBD regarding payroll, VAT rebate and future auditing of accounts.

ii) Tai Bach Tresaith/*Tresaith Toilets*

Gyda'r angen am wneud penderfyniad terfynol am ddyfodol y toiledau hyn yn agosáu, nododd y Clerc yr angen er mwyn medru gosod cyfanswm y Praesept erbyn mis Ionawr man hwyraf. Nodwyd hefyd y byddai'r cyfarfod a gynhelir yn Ysgol Uwchradd Aberteifi ar Dachwedd 28ain yn gymorth i ddod I benderfyniad terfynol.
With the need for a final decision regarding the future toilet provision, the Clerk reiterated this in order to facilitate setting the Precept by January at the latest. It was also said that the meeting due to be held at Cardigan Secondary School on November 28th would be of assistance as regards the decision making.

5 <u>Ymateb I Adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru/Response to Report by Commission for Democracy and Boundaries Cymru</u>

Teimlad yr aelodau oedd y dylid ymateb ymhellach i gasgliadau'r adroddiad hwn. Er bod y Comisiwn wedi cynyddu nifer y Cynghorwyr etholedig o 7 i 13, teimlid bod yna sylwadau eraill a ddiystyrwyd.

The general feeling was that we ought to respond further to the report's findings. Even though the number of proposed elected members has increased from 7 to 13, it was felt other matters were ignored.

i) Ffiniau Etholiadol/*Electoral Boundaries*

Yn nhyb llawer, mae'r ffaith nad yw'r ffiniau'n dilyn ardaloedd etholiadol yn utanseilio casgliadau'r adroddiad. Dylid glynu wrth y rhain er mwyn hwyluso gweinyddiaeth y Cynghorau hyn.

For many, the fact that the boundaries don't follow electoral wards undermines the report's findings. They ought to abide by these in order to facilitate these Councils' administration.

ii) Gwaith dod i adnabod y cymunedau/*Getting acquainted with the community*

Hyd yn oed gyda 13 o gynrychiolwyr, bydd adnabyddiaeth yr aelodau o'u cymunedau yn llawer mwy cyffredinol ac arwynebol.

Even with 13 members, the members'acquaintance with the area will be far more general and superficial.

6 <u>Trefniadau Cyfarfod y Prif Weithredwr/Arrangements for Chief Executive Meeting – 28/11/24</u>

Dywedwyd bod modd enwebu 2 aelod i fynychu'r cyfarfod hwn a gynhelir yn Ysgol Uwchradd Aberteifi. Nododd Jonathan ei awydd i'w fynychu gyda Gwyn eisoes yn bresennol yn rhinwedd ei swydd fel aelod etholedig dros Benbryn.

Er mwyn medru gofyn cwestiynau ar y noson ei hun, rhaid yw eu cyflwyno ymlaen llaw. Yn dilyn trafodaeth ar y math o gwestiynau y dylid eu gofyn cytunodd y Clerc i lunio geiriad drafft o'r rhai pwysicaf er mwyn caniatau i'r aelodau ddewis y rhai priodol.

It was stated that 2 members may be nominated to attend this meeting held at Cardigan Secondary School. Jonathan noted his desire to attend with Gwyn being present as an elected member for Penbryn.

In order to ask any questions on the night itself, it is necessary to submit them beforehand. Following a discussion the Clerk agreed to prepare a draft version of the questions to enable the members to select the questions.

7 <u>Cyllid/Finance</u>

i) Balans/*Balance*

Balans Blaenorol/*Previous Balance*	£11303.69
Taliadau/*Payments*	£11213.69
Ad-daliad Delfryn *Reimbursement*	
£90 (heb ei dalu/*not paid yet*)	
Derbyniadau/*Received*	
Taliad Praesept/*Precept Payment*	£4166.67
Balans Newydd/*New Balance*	£15380.36

ii) Cyflog Clerc/*Clerk Salary*

Cyflwynodd y Clerc gais am gyflog ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst a mis Tachwedd. Cymeradwyd y cyfanswm o £780 yn unfrydol gan yr aelodau.
The Clerk presented a request for salary from August until November. The total of £780 was unanimously approved by members.

iii) Costau Gweinyddol y Cyn-Glerc/*Former Clerk's Administrative Costs*
Cyflwynwyd cais gan y cyn-Glerc am gostau ôl-syllol o'r cyfnod 2022-24. Y cyfanswm oedd £120.04. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd gohirio'r taliad hyd nes y derbynnir holl gostau eraill y cyfnod diweddar hwn yn eu cyfanrwydd.
A request was submitted by the former Clerk for retrospective costs from 2022-24. The total was £120.04. Following a discussion it was decided to postpone any payment until all relevant costs from this period were received in their entirety.

iv) Newidiadau i'r Cyfrif Banc/*Changes to Bank Account*
Cyhoeddodd y Clerc fod **Bank of Scotland** yn cyflwyno newidiadau i'r cyfrif. Enw newydd y cyfrif fydd Y CYFRIF CYMUNEDOL a bydd taliadau am gynnal cyfrif a defnyddio gwasanaethau'r banc. Bydd tâl o £4.25 y mis am gadw'r cyfrif ynghyd â chostau am wneud a derbyn taliadau. Am bob siec a delir mewn ac allan bydd tâl o £0.50. Wrth astudio'r costau unigol gwelwyd bod trosglwyddiad BACS yn costio £0.07 am bob taliad. Mynegodd yr aelodau awydd mewn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio app bancio er mwyn hwyluso taliadau rhatach yn y dyfodol. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach.
The Clerk informed members of changes to the bank account. The account's new name will be the Community Account with additional payments for maintaining and using the bank's services. A payment of £4.25 per month will be levied for maintaining the account as well as costs for making and receiving payments. A cost of £0.50 will be incurred for each cheque processed by the bank. It was noted that BACS transfers cost £0.07 each. The members expressed a desire to make further enquiries regarding the use of app banking in order to facilitate cheaper payments in the future. It was agreed to follow this course of action.

v) Ffurflenni Llofnodwyr Newydd/*New Signatories Forms*
Gofynnodd y Clerc i'r aelodau hynny, a gytunodd i fod yn llofnodwyr newydd ar gyfer y cyfrif banc, am fanylion pellach er mwyn cwblhau'r ffurflenni. Y gobaith yw, unwaith y byddwn wedi gorffen hyn, bydd gennym ddigon o aelodau i arwyddo sieciau a thaliadau'r Cyngor.
The Clerk asked those members, who had agreed to be new signatories for the bank account, for further information in order to complete the forms. The hope is that this will ensure sufficient signatories at any time when payments are made.

8 <u>Cynllunio/Planning</u>

A240756 – MACHLUD HAUL, BRYNHOFFNANT
DIM GWRTHWYNEBIAD

9 <u>Gohebiaeth/Correspondence</u>

i) Hayston a Datblygiad Castell Pridd/*Hayston and Castell Pridd Development*
Bwriad cwmni Hayston yw agor datblygiad twristiaeth o gabanau symudol, lleiniau carafanau teithiol a lleiniau pebyll ar lain o dir uwchben Caffi Emlyn yn Nhanygroes. Rhoddodd Gareth ychydig o gefndir y manylion wrth nodi nad yw'r cais yn perthyn i dir Castell Pridd o gwbl. Ychwanegodd fod y cais, sydd heb ei gyflwyno eto, yn gofyn am le ar gyfer 107 o garafanau, 13 o bebyll a 7 caban. Nododd fod yna

wrthwynebiad i'r cynllun ar lawr gwlad gyda chwmni o Rydychen yn ceisio caniatâd ar ei gyfer. Gofynnwyd gan rai aelodau pa mor gynaladwy oedd y cwmni hwn yn ariannol wedi iddynt edrych ar sefyllfa ariannol y cwmni? Yr argraff gyntaf ymhlith yr aelodaeth oedd ei fod yn rhy fawr o lawer ac yn peri anawsterau mynediad i'r brif ffordd ger Tanygroes. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio ag ymateb i'r ohebiaeth ar hyn o bryd ac oedi hyd nes y cyflwynir y cais cynllunio yn ffurfiol gerbron Cyngor Ceredigion.

Hayston's intention is to open a tourism development of mobile lodges, touring caravan pitches and tent pitches on fields above Caffi Emlyn at Tanygroes. Gareth presented some background detail noting that the application doesn't relate to Castell Pridd at all. He also added that the application, not yet submitted, refers to 107 caravans, 13 tents and 7 cabin logs. It was stated that there was opposition to the plans by the company from Oxford within the area. Doubts were raised by some members how sustainable was this company financially? First impressions among the members were that this plan is far too large for this area and would result in difficulties accessing the main road. Following a discussion it was decided not to respond formally yet but wait until the application is put before Ceredigion Council.

10 <u>Unrhyw Fater Arall/Any Other Business</u>

i) Y Wefan/*The Website*

Gofynnodd Jonathan tybed a fyddai modd ail gychwyn gwefan y Cyngor cyn bo hir. Cyfeiriodd at yr angen am destun pellach er mwyn galluogi Graham Jones i barhau â'r gwaith. Yn sgil hyn cytunodd y Clerc i wneud ymholiadau gyda Graham er mwyn gweld ble rydym yn sefyll.

Jonathan asked whether it would be possible to resurrect the Council's website soon. He referred to the need for more text in order to enable Graham Jones to continue. In response the Clerk agreed to make further enquiries with Graham in order to discover where we stand at the moment.

11 <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting</u>

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd 2024 am 7.30 y.h.

The next meeting will be held on Tuesday, December 3rd 2024 at 7.30 p.m.